Rhif: **WG20494**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori



# Cynigion ar gyfer Pysgodfa Cramenogion y Glannau

Rhan 1

Dyddiad cyhoeddi: **27 Ionawr 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **20 Ebrill 2014**

## Trosolwg

Gweledigaeth Cynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd[1], a gyhoeddwyd ar 26 Tachwedd 2013, yw môr glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol. Mae'r Cynllun Gweithredu am ein gweld yn rheoli ein moroedd trwy ddull sy'n seiliedig ar yr ecosystem er mwyn diogelu a gwarchod ein hadnoddau naturiol, a defnyddio poblogaethau iach fel sail ar gyfer hybu twf economaidd cynaliadwy.

Yr her i reoli pysgodfeydd yw cadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr angen i osgoi gweithgaredd sy'n niweidio'r amgylchedd a chynyddu gwerth gweithgareddau y gallwn eu cynnal yn gynaliadwy. Mae gan bysgod cregyn botensial economaidd cynaliadwy sylweddol ac mae cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i reoli'r asedau hyn yn gynaliadwy i sicrhau twf economaidd priodol a diogelu bywoliaethau o gwmpas yr arfordir. Y bysgodfa cramenogion (sy'n cynnwys Cimychiaid, Crancod Coch, Cimychiaid Coch, Crancod Heglog, Crancod Llygatgoch a Chrancod Glas) yw un o bysgodfeydd masnachol mwyaf Cymru. Yn ôl ystadegau'r Sefydliad Rheoli Morol, glaniwyd 1,300 o dunelli metrig o gramenogion ym mhorthladdoedd Cymru, gwerth £3.8 miliwn[2] yn 2012.

Carai Llywodraeth Cymru weld pysgodfa cramenogion hyfyw a chynaliadwy yng nglannau Cymru, gyda deddfwriaeth syml ac effeithiol yn gefn iddi. Mae'r rheolau presennol yn gymhleth ac yn ddryslyd. Mae sawl lefel o is-ddeddfwriaeth wedi'u datblygu dros amser gan y cyrff gwahanol sydd wedi bod yn gyfrifol am bysgodfeydd, yn aml ar sail ardal. Mae'n anorfod felly bod peth gorgyffwrdd, dyblygu a chroesddweud rhwng y gwahanol setiau o ddeddfwriaeth. Mae hyn yn ddryslyd i ddefnyddwyr a rheolwyr. Ni all y sefyllfa hon bara.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n gosod allan y cynigion ar gyfer Rhan 1 yr adolygiad o'r holl ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i gramenogion yn holl ddyfroedd Cymru. Y nod yw llunio fframwaith clir a hawdd ei ddeall ar gyfer rheoli pysgodfa cramenogion Cymru gyfan. Mae'r gwaith hwn yn rhan o adolygiad ehangach o'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chramenogion yng Nghymru (a pharth Cymru).

Rydym ni'n credu bod angen rheolau newydd arnom sy'n deg, yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n hawdd ei deall ac yn hygyrch. Bydd yna fwy o safoni a llai o ffiniau. Dylent fod yn hawdd eu gorfodi, yn adlewyrchu'r arferion pysgota diweddaraf a lle medrir, dylent leihau'r baich ar ddiwydiant a Llywodraeth fel ei gilydd. Bydd y newidiadau'n ein galluogi i ddefnyddio a thargedu ein hadnoddau naturiol yn well.

Mae Llywodraeth Cymru'n gofyn i chi am eich ymateb i'n helpu i ddatrys y problemau sy'n gysylltiedig â chynnal pysgodfa cramenogion cynaliadwy yng nglannau Cymru. Bydd Rhan 1 yr adolygiad o ddeddfwriaeth yn ymdrin â Chimychiaid, Cimychiaid Coch, Crancod Coch, Crancod Heglog, Crancod Llygatgoch a Chrancod Glas ac yn canolbwyntio'n bennaf ar y darpariaethau sydd mewn grym ar hyn o bryd sy'n ymwneud â maint lleiaf, holltau V yng nghynffonau cimychiaid a thynnu rhannau cramenogion. Mae'r cynigion y carwn i chi fynegi'ch barn arnynt wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon a'r atodiadau amgaeedig

## Sut i ymateb

Gellir cyflwyno'ch ymatebion ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru:

http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/?lang=en

Dros e-bost:fisheriesmailbox@Wales.gsi.gov.uk

Trwy'r post:
Ymgynghoriad Cramenogion
Uned Bysgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Llys y Ddraig
Parc Busnes Penlle'r-gaer
Penlle'r-gaer, Abertawe
SA4 9NX

1 http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/foodandfisheries/fisheries/walesfisheriesstrategy/?lang=en

2 http://www.marinemanagement.org.uk/fisheries/statistics/annual.htm#chapter2

© Hawlfraint y Goron 2014

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Diogelu Data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy’n gweithio ar y materion y mae’r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw.
Mae’n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.

Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn wedi’u cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

**Crynodeb o'r sefyllfa gyfreithiol bresennol**

Rheolir pysgodfeydd Cymru gan nifer o ddeddfau domestig ac Ewropeaidd ar nifer o lefau. Ar lefel ddomestig, ceir Deddfau Senedd y DU (gan gynnwys Deddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 a Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 1009), sawl haen o is-ddeddfwriaeth (Offerynnau Statudol) a'r is-ddeddfau cadw a wnaed gan y Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr gynt yng Nghymru (gweler mwy isod). Ar lefel Ewrop, ceir offerynnau statudol sy'n pennu gofynion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, gan gynnwys (at ddiben yr ymgynghoriad hwn) Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 850/98 dyddiedig 30 Mawrth 1998 ar gyfer gwarchod adnoddau pysgodfeydd trwy fesurau technegol ar gyfer diogelu organeddau morol ifanc. Mae Atodiad XII Rheoliad (EC) 850/98 yn pennu Maint Lleiaf rhai rhywogaethau a ddaw o dan yr ymgynghoriad hwn. Gall deddfwriaeth ddomestig (ambell waith) fod yn llymach ond ni chaiff gyflwyno mesurau sy'n gofyn llai na deddfwriaeth yr UE.

Cyn 1 Ebrill 2010, roedd pysgodfeydd glannau Cymru (h.y. y dyfroedd o fewn 6 milltir forol o'r arfordir) yn cael eu rheoli gan is-ddeddfau a wnaed gan Bwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a Phwyllgor Pysgodfeydd Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr. Cafodd y Pwyllgorau hyn eu sefydlu gan Ddeddf Rheoleiddio Pysgodfeydd Môr 1966 ("Deddf 1966").

Ym mis Ebrill 2010, trosglwyddwyd yr holl gyfrifoldebau am reoli'r pysgodfeydd ym Mharth Cymru, y cyfeirir ato fel Môr Tiriogaethol Cymru ac sy'n cynnwys pysgodfeydd y glannau hyd at 12 milltir forol o'r lan, i Weinidogion Cymru.

Ar 1 Ebrill 2010, cafodd Deddf 1966 ei diddymu yng Nghymru. Canlyniad hynny oedd diddymu effeithiau'r ddau Bwyllgor Pysgodfeydd Morol yng Nghymru. Cadwyd is-ddeddfau'r Pwyllgorau serch hynny ac ers 1 Ebrill 2010, mae iddynt yr un effaith â phe baent wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol, hynny trwy Orchymyn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630). Mae darpariaethau is-ddeddfau'r hen Bwyllgorau felly yn para mewn grym yn nalgylchoedd yr hen Bwyllgorau (sy'n cynnwys y dyfroedd sy'n ymestyn i bellter o chwe milltir forol o'r lan).

Mae'n anorfod bod yr amrywiaeth o lefelau o ddeddfwriaeth (gyda chorff gwahanol wedi darparu pob lefel) wedi arwain at glytwaith o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar ardaloedd gwahanol ac sydd weithiau, o'u dwyn ynghyd, yn anghyson. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa ddryslyd i ddefnyddwyr a rheolwyr fel ei gilydd ac mae Llywodraeth Cymru'n benderfynol o symud ymlaen trwy unioni'r dryswch, y dyblygu a'r croesddweud trwy greu fframwaith clir, cyson a hawdd ei ddeall ar gyfer rheoli pysgodfa cramenogion y glannau yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy.

**Problemau'r drefn bresennol ar gyfer rheoli pysgodfeydd**

Mae llawer o sialensiau'n wynebu rheolwyr pysgodfeydd o dan ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n amharu ar eu gallu i reoli pysgodfeydd cramenogion Cymru'n effeithiol. Er enghraifft, mae'r meintiau lleiaf y caniateir eu dal o'r un rhywogaeth yn amrywio o le i le yng Nghymru.

Mae trefn y meintiau lleiaf yn gweithio'n dda gyda chimychiaid a chramenogion eraill gan mai mater rhwydd, oherwydd dull eu dal, yw taflu unrhyw rai sy'n rhy fach yn ôl yn fyw i'r môr, heb wastraff. Mae hi hefyd yn bysgodfa lân, yn yr ystyr mai

ychydig o sgil-ddalfa sydd, heblaw am grancod, er bod modd eu taflu nhw yn ôl i'r môr yn fyw hefyd.

Fodd bynnag, dim ond ar y dyfroedd o fewn chwe milltir forol i'r lan y mae is-ddeddfau'r Pwyllgor Pysgodfeydd Morol yn effeithio. Deddfwriaeth arall sy'n pennu'r meintiau lleiaf yn y dyfroedd y tu hwnt i'r ffin chwe milltir.

Rydym am ddiddymu pob deddfwriaeth ddomestig sy'n ymwneud â meintiau lleiaf cramenogion ac yn ei lle, rydym am bennu un maint lleiaf ar gyfer pob rhywogaeth, pa ran bynnag o Fôr Tiriogaethol Cymru (sy'n ymestyn hyd at 12 milltir morol) y caiff ei dal. Mae'r rhan fwyaf o gramenogion yng Nghymru'n cael eu dal o fewn y ffin deuddeg milltir (yn wir, mae'r mwyafrif yn cael eu dal o fewn 6 milltir). Credir felly nad oes angen mynd y tu hwnt i'r ffin deuddeg milltir.

Rydym am weld system deg lle bydd pob pysgotwr yng Nghymru'n gorfod cadw at yr un set o reolau clir, cryno a hawdd eu defnyddio. Er mwyn medru gorfodi'r rheolau hyn yn rhwydd, rydym yn cynnig hefyd bod cludo cramenogion rhy fach yn dod o dan y ddeddfwriaeth newydd. Bydd hyn yn rhwystro unigolion rhag gallu honni bod y cramenogion ar eu cwch wedi'u dal y tu allan i'r ardal berthnasol.

I gwblhau'r broses symleiddio, rydym am safoni hefyd y darpariaethau presennol mewn cysylltiad â chimychiaid â hollt V a rhannau cramenogion.

Yn ogystal â mynd i'r afael â sialensiau heddiw, mae cyfleoedd hefyd yn y dyfodol, fel y profion sydd wedi'u datblygu i ddangos cimychiaid sydd wedi'u 'sgwrio' h.y. bod wyau wedi'u sgubo oddi arnyn nhw. Mae modd felly gorfodi gwaharddiad ar lanio cimwch benyw (iâr cimwch neu gimyches) wyog - er nad yw'r wyau arni.

**Ble ydym ni nawr?**

Mae'r cynigion rheoleiddiol newydd wedi'u datblygu trwy gyfarfodydd cyn ymgynghori â rhanddeiliaid yn nhri Grŵp Pysgodfeydd Glannau Cymru a chyda'r Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Cymru. Mae hyn wedi helpu Llywodraeth Cymru i lunio polisïau sy'n bodloni'r rhanddeiliaid yn ogystal â diwallu anghenion yr amgylchedd.

Trwy fod wedi datblygu'r cynigion hyn ar y cyd â rhanddeiliaid a defnyddwyr, a hynny mewn ffordd agored ym mhob cam, rydym wedi gallu ffurfio polisïau ymarferol a pherthnasol a fydd gobeithio yn cael sêl bendith y diwydiant. Yn ein barn ni, mae'r cynigion hyn yn hawdd eu deall a'u gorfodi, mor syml â phosibl ac yn sbarduno diwydiant cynaliadwy.

Bydd Llywodraeth Cymru'n asesu effaith amgylcheddol y cynigion a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad hwn trwy gynnal prawf yr 'Effaith Arwyddocaol Debygol' (yn unol ag Erthygl 6(3) Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwyllt ("Cyfarwyddeb y Cynefinoedd") ac rydym eisoes wedi dechrau ymgynghori yn hyn o beth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Rhan I:  Ein Cynigion

### 1. Cimwch *(Homarus gammarus)*

Y Cimwch Ewropeaidd *(Homarus gammarus)* yw prif darged y rhan fwyaf o'r rheini sy'n pysgota â chewyll.  Mae gan y cimwch ddosbarthiad eang ac fe'i ceir ar y sgafell gyfandirol o Gylch yr Arctig i Fôr y Canoldir.  Mae'n well ganddo riffiau a glannau creigiog caled.  Mae cimychiaid yn byw'n hir - dros 50 mlynedd yn ôl rhai. Mae cimychiaid benyw (cimychesau) yn dod i oed cenhedlu'n 4-7 oed pan fydd ganddynt gragen tua 83mm (Lovewall *e tal.* 1991).  Mae cimychiaid yn ymosodol, tiriogaethol a chanibalistig. Bydd oedolion yn lladd neu'n anafu cimychiaid llai sydd wedi'u dal yn yr un gawell.  Mae cimwch yn tyfu trwy fwrw ei gragen (sef y croen caled allanol) gan adael cimwch mwy sy'n agored iawn i niwed am wyth wythnos nes bod ei gragen newydd yn caledu. Bydd cimwch gwryw cragen galed fel arfer yn paru â chimyches cragen feddal, yn fuan wedi iddi fwrw'i chragen.  Mae cimychiaid aeddfed yn bwrw eu cregyn unwaith y flwyddyn neu lai.  Mae'r gimyches yn cynhyrchu hyd at 30,000 o wyau ffrwythlon ac yn eu glynu o dan ei chynffon.  Mae'r wyau'n datblygu yno am ryw 9-12 mis cyn ei bod yn eu gollwng i'r golofn ddŵr lle maen nhw'n arnofio'n rhydd, yn bwrw eu cregyn nifer o weithiau ac yn tyfu.

Rheolir pysgodfa'r cimwch Ewropeaidd yn bennaf trwy reolau ynghylch y maint glanio lleiaf, ynghyd â rhaglenni torri hollt V (a ddisgrifir yn fanylach isod) a gwaharddiad ar lanio cimychesau wyog.  (Woolner *et al.* 2013).

**<u>Y Maint Lleiaf</u>**

Pennir tri maint lleiaf ar gyfer cimychiaid gan y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd:

- Mae Rheoliad y Cyngor (EC) 850/98 30 Mawrth 1998 ar gyfer gwarchod adnoddau pysgodfeydd trwy fesurau technegol ar gyfer diogelu organeddau morol ifanc, yn pennu maint lleiaf o **87mm** (yn holl ddyfroedd yr UE heblaw'r Skagerrak a'r Kattegat);

- Mae Gorchymyn Cimychiaid Rhy Fach 1993 (O.S. 1993/1178) yn pennu **85mm** fel y maint lleiaf (ym Mharth Cymru*. Nid yw'n cydymffurfio â Rheoliad (EC) 850/98);*

- Mae Is-ddeddf 3 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt (Cimychiaid – Maint Lleiaf) yn pennu maint lleiaf o **90mm** (yn ardal Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt) h.y. hyd at 6 milltir forol o'r lan yn yr ardal berthnasol);

- Mae Is-ddeddf 19 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr gynt (Maint Lleiaf Pysgod) yn pennu maint lleiaf o **87mm** (yn ardal Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr gynt h.y. hyd at 6 milltir forol o'r lan yn yr ardal berthnasol); ac

- Mae Is-ddeddf 29 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr (Maint Lleiaf Cimychiaid) yn pennu maint lleiaf o **87mm** (yn ei ardal i'r gorllewin a'r de o orsaf cychod achub y Rhyl lledred 53° 19.4' Gogledd, hydred 03° 29.5' Gorllewin);

Rydym yn cynnig gwahardd pysgota am gimychiaid sy'n llai na **90mm (hyd y gragen)** a gwahardd hefyd eu glanio, eu gwerthu a'u dinoethi; gwaherddir hefyd eu cynnig i'w gwerthu a bod â chimwch o'r fath yn eich meddiant, hynny ar hyd arfordir Cymru hyd at 12 milltir forol o'r lan.

Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd bod â chimwch sy'n llai na **90mm** yn eich meddiant ym Môr Tiriogaethol Cymru, pa le bynnag y cafodd ei ddal.

Bydd cynyddu'r maint lleiaf yn rhoi amddiffyniad pellach i gimychiaid ac yn chwalu unrhyw amheuon ynghylch maint y cimychiaid y cewch eu dal yn nyfroedd Cymru gan wneud y stoc leol yn fwy cynaliadwy a hyfyw at y dyfodol.

**<u>Cimychiaid â'r hollt V</u>**

I helpu i ddiogelu'r rhywogaeth at y dyfodol, mae rhaglenni hollti cynffonau wedi'u cynnal yn y gorffennol lle cafodd cimychwyr eu hannog i ollwng cimychesau yn ôl i'r môr ar ôl torri hollt siâp V ar eu cynffonau. Cyflwynwyd deddfwriaeth a ddisgrifir isod i wahardd dal a glanio'r cimychiaid hyn er mwyn iddyn nhw gael bridio ac i amddiffyn y stoc silio (Tully, 2004).

Dyma'r darpariaethau sy'n gwahardd cymryd cimychiaid â hollt V yn eu cynffonau yng Nghymru:

- Gorchymyn Cimychiaid a Chimychiaid Cochion (Gwahardd eu Pysgota a'u Glanio) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/676 (Cy.73))
    - Mae Gorchymyn 2002 yn gwahardd pysgota a dal cimwch (at ein dibenion ni) sydd â hollt V o leiaf 5mm o ddyfnder yn ei gynffon. Mae'n cynnwys unrhyw gimwch hefyd sydd wedi'i lurgunio er mewn cuddio'r hollt V.

- Is-ddeddf 5 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt (Amddiffyn Cimychiaid â hollt V)
    - Yn gwahardd pysgota a dal cimychiaid sydd â hollt V arnynt. Mae'n cynnwys unrhyw gimwch hefyd sydd wedi'i lurgunio er mewn cuddio'r hollt V.

- Is-ddeddf 5 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr gynt (Amddiffyn Cimychiaid â hollt V)
    - Yn gwahardd pysgota a dal cimychiaid sydd â hollt V arnynt. Mae'n cynnwys unrhyw gimwch hefyd sydd wedi'i lurgunio er mewn cuddio'r hollt V.

Rydym yn cynnig gwahardd pysgota am gimychiaid ag arnynt hollt V neu sydd wedi'u llurgunio a gwahardd hefyd eu glanio, eu gwerthu a'u dinoethi; gwaherddir hefyd eu cynnig i'w gwerthu a bod â chimwch o'r fath yn eich meddiant, lle bo:

(i) hollt V yn golygu unrhyw doriad siâp 'v' yn un neu fwy o'r pum llabed yn ffan cynffon cimwch.
(ii) 'wedi'u llurgunio' yn golygu cimwch sydd ag unrhyw un o'r pum llabed yn ffan y cynffon yn eisiau neu wedi'i lurgunio mewn modd sy'n cuddio hollt V.

Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd bod â chimwch â hollt V arno yn eich meddiant ym Môr Tiriogaethol Cymru, pa le bynnag y cafodd ei ddal.

**<u>Cimychesau Wyog</u>**

Mae gan lawer o awdurdodau pysgodfeydd, gan gynnwys Awdurdodau Pysgodfeydd Glannau a Chadwraeth yn Lloegr (y cyrff a olynodd y Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr yn Lloegr), is-ddeddfau sy'n gwahardd glanio cimychesau wyog (brywnesau). Cyn hynny, roedd glanio cimychesau wyog yn y DU wedi'i wahardd o dan Orchymyn Diwydiant Pysgota Môr (Crancod a Chimychiaid) 1951 (O.S. 1951/638). Cafodd y ddarpariaeth honno ei diddymu yn 1996 oherwydd anawsterau â'i gorfodi am ei bod yn amhosibl dweud p'un a oedd wyau'r gimyches wedi'u colli'n naturiol neu wedi'u sgwrio (h.y. wedi'u crafu oddi ar y gimyches yn fwriadol gan y cimychwr). Ers hynny, mae prawf gwyddonol wedi'i ddatblygu sy'n gallu dangos a yw'r gimyches yn wyog (hyd yn oed os yw'r wyau wedi'u crafu oddi arni). O ganlyniad, gellir bellach orfodi'r rheol hon (Woolmer *et al.* 2013).

Bydd rheol sy'n gwahardd glanio (ac ati) cimychesau wyog yn helpu i wella iechyd y stoc cimychiaid, yn cynyddu eu nifer ac yn eu gwneud yn fwy cynaliadwy.

Rydym yn cynnig gwahardd pysgota am gimychesau wyog a gwahardd hefyd eu glanio, eu gwerthu a'u dinoethi; gwaherddir hefyd eu cynnig i'w gwerthu a bod â chimyches wyog o'r fath yn eich meddiant.

Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd bod â chimyches wyog yn eich meddiant ym Môr Tiriogaethol Cymru, pa le bynnag y cafodd ei dal.

### 2. Cranc Coch *(Cancer pagurus)*

Mae'r Cranc Coch (cochyn neu'r cranc bwytadwy) *(Cancer pagurus)* yn gyffredin ym mhob rhan o arfordir Prydain ac Iwerddon. Fe'i gwelwch mewn amrywiaeth o gynefinoedd, yn aml ar wely creigiog o dan feini a cherrig, ar lawr o gerigos bras cymysg a hyd yn oed ar dywod a mwd.

Mae crancod yn cymryd sawl blwyddyn i gyrraedd eu llawn dwf, ac mae eu maint yn amrywio yn ôl y ddaearyddiaeth, gan ddibynnu ar amodau'r amgylchedd gan

gynnwys tymheredd y môr. Mae crancod yn bwrw eu cregyn yn yr haf, gyda'r crancod benyw yn bwrw eu cregyn cyn y gwrywod. Mae hynny'n caniatáu i'r crancod gwryw cregyn caled baru â'r crancod benyw cregyn meddal. Mae'r crancod benyw'n claddu eu hunain yn y gwaddod i ffrwythloni'u hwyau ac yna'n eu cario dros fisoedd y gaeaf. Ychydig iawn maen nhw'n ei fwyta bryd hynny, felly nid yw crancod wyog yn cael eu dal mewn cewyll yn aml. Mae mwyafrif yr holl gramenogion yn cael eu hallforio i dir mawr Ewrop (Woolmer *et al.* 2013).

Fel uchod, mae'r rheolau ynghylch y maint lleiaf yn wahanol i bysgotwyr mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru.

Dyma'r darpariaethau perthnasol ar gyfer Crancod Coch:

- Mae Rheoliad y Cyngor (EC) 850/98 30 Mawrth 1998 ar gyfer gwarchod adnoddau pysgodfeydd trwy fesurau technegol ar gyfer diogelu organeddau morol ifanc, yn pennu'r meintiau lleiaf canlynol:
    - **140mm** yn ardal VIIf Cyngor Rhyngwladol Chwilio'r Môr (ICES) [3]
    - **130mm** yn ardal ICES VIIa & g. [3]
- Mae Gorchymyn Crancod Rhy Fach 1986 (O.S. 1986/497) (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Crancod Rhy Fach (Diwygio) 1989 (O.S. 1989/2443)) yn pennu'r meintiau lleiaf ar gyfer glanio (130mm yn y De a 125mm yn y Gogledd), gwerthu (115mm) a chludo (125mm) crancod coch ar hyd arfordir Cymru.
- Mae Is-ddeddf 6 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt (Crancod – Maint Lleiaf) yn pennu maint lleiaf o **140mm** (yn ardal Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt h.y. hyd at 6 milltir forol o'r lan yn yr ardal berthnasol);
- Mae Is-ddeddf 19 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr gynt (Maint Lleiaf Pysgod) yn pennu maint lleiaf o **130mm** (yn ardal Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr gynt h.y. hyd at 6 milltir forol o'r lan yn yr ardal berthnasol).

Rydym yn cynnig gwahardd pysgota am grancod coch sy'n llai na **140mm (o'u mesur ar draws rhan letaf y gragen)** a gwahardd hefyd eu glanio, eu gwerthu a'u dinoethi; gwaherddir eu cynnig i'w gwerthu a bod â chranc coch o'r fath yn eich meddiant, a hynny ar hyd arfordir Cymru hyd at 12 milltir forol o'r lan.

Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd bod â chranc coch sy'n llai na **140mm** yn eich meddiant ym Môr Tiriogaethol Cymru, pa le bynnag y cafodd ei ddal.

Bydd cynyddu'r maint lleiaf yn rhoi amddiffyniad pellach i grancod coch ac yn chwalu unrhyw amheuon ynghylch maint y crancod coch y cewch eu dal yn nyfroedd Cymru gan wneud y stoc leol yn fwy cynaliadwy a hyfyw at y dyfodol.

[3] Fe welwch yr union fanylion yn: http://geo.ices.dk/viewer.php?add_layers=ices_ref:ices_areas

**3. Cranc Heglog** *(Maia squinado)*

Mae'r Cranc Heglog *(Maia squinado)* i'w weld amlaf ar arfordir deheuol a gorllewinol Ynys Prydain, er yn y blynyddoedd diwethaf wrth i'r môr gynhesu, mae'n cael ei weld yn amlach ymhellach i'r gogledd. Mae'r cranc heglog yn bwysig bellach yn y Canolbarth lle roedd tan yn ddiweddar yn anifail prin. Y cranc heglog yw'r cranc mwyaf ym Mhrydain a gall ei gragen fod cymaint ag 20cm a rhychwant ei grafangau fod 50cm a mwy. Mae i'w weld amlaf ar welyau môr gwastad, meddal ar hyd y glannau, gan symud o'r glannau yn y gaeaf. Mae'n mudo i ddŵr dyfnach yn yr hydref ac yn dychwelyd i ddŵr bas yn y gwanwyn i fagu. Delir y cranc heglog fel arfer mewn cewyll neu rwydi drysu. (Gweler adolygiadau CSFC, 2008, Gonzales-Gurriaran *et al,* 1995). Credir bod y cranc heglog yn gyffredin yng Nghymru ac yn eang ei wasgariad, ond ni fu cymaint o bysgota arno yma. Yr awgrym yw y gallai fod yma yng Nghymru bysgodfa gynaliadwy o reoli'r stoc yn briodol. Roedd y cranc heglog yn cael ei weld fel sgil-ddalfa ond mae ei bwysigrwydd economaidd yn tyfu gan fod prynwyr dethol wedi dechrau cymryd at ei gig blasus.

Yn wahanol i'r cramenogion eraill sy'n destun trafod yn yr Ymgynghoriad hwn, nid yw'r cranc heglog nac yn bwrw cragen ar ôl cyrraedd oed cenhedlu. Mae'n gallu atgenhedlu felly er bod ei gragen yn galed, a hynny unwaith y flwyddyn (Woolmer *et al.*, 2013).

Fel gyda'r lleill, mae'r rheolau ynghylch maint lleiaf y cranc heglog yn wahanol i bysgotwyr mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru.

Dyma'r darpariaethau perthnasol ar gyfer Crancod Heglog:

- Mae Rheoliad y Cyngor (EC) 850/98 30 Mawrth 1998 ar gyfer gwarchod adnoddau pysgodfeydd trwy fesurau technegol ar gyfer diogelu organeddau morol ifanc, yn pennu maint lleiaf o **120mm**;

- Gorchymyn Crancod Heglog Rhy Fach 2002 (O.S. 2002/1897 (Cy.198) yn pennu **130mm** fel y maint lleiaf ar gyfer crancod heglog gwryw.

- Mae Is-ddeddf 19 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr gynt (Maint Lleiaf Pysgod) yn pennu maint lleiaf o **130mm** ar gyfer crancod heglog gwryw a maint lleiaf o **120mm** ar gyfer crancod heglog benyw (yn ardal Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr gynt h.y. hyd at 6 milltir forol o'r lan yn yr ardal berthnasol).

- I esbonio, nid oes rheol ynghylch maint lleiaf yn is-ddeddfau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru. Felly Rheoliad y Cyngor (EC) 850/98 ac OS 2002/1897 (Cy198) sy'n weithredol yn ardal yr hen Bwyllgor hwn.

Rydym yn cynnig gwahardd pysgota am grancod heglog sy'n llai na **130mm** (o'u mesur ar draws rhan letaf y gragen) a gwahardd hefyd eu glanio, eu gwerthu a'u dinoethi; gwaherddir hefyd eu cynnig i'w gwerthu a bod â chranc heglog o'r fath yn eich meddiant, a hynny ar hyd arfordir Cymru hyd at 12 milltir forol o'r lan.

Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd bod â chranc heglog sy'n llai na **130mm** yn eich meddiant ym Môr Tiriogaethol Cymru, pa le bynnag y cafodd ei ddal.

Bydd cynyddu'r maint lleiaf yn rhoi amddiffyniad pellach i grancod heglog ac yn chwalu unrhyw amheuon ynghylch maint y crancod heglog y ceir eu dal yn nyfroedd Cymru gan wneud y stoc leol yn fwy cynaliadwy a hyfyw at y dyfodol.

## 4. Cimwch Coch (*Palinurus elephas*)

Cramenogion y môr yw cimychiaid coch *(Palinurus elephas).* Maen nhw'n byw'n hir ac yn anifeiliaid mawr, cymaint os nad yn fwy na'r cimwch. Maen nhw'n frown-goch eu lliw (mae cimychiaid yn las) ac mae'u crafangau'n fach iawn a'u teimlyddion yn hir. Maen nhw i'w gweld mewn riffiau creigiog ar hyd arfordir gorllewin Ewrop. Ceir niferoedd bach ohonynt yn Sir Benfro a Phen Llŷn ond roedd mwy ohonynt yn y gorffennol. Ers y 1970au, gwelwyd gostyngiad dramatig yn y nifer a ddelir – dengys data glanio i'r bysgodfa gwympo o 55,000kg ym 1979 i 500kg ym 1995 (Hunter *et al.,* 1996).

'Gweddilliol' yw'r gair i ddisgrifio'r boblogaeth yn y Môr Celtaidd ar hyn o bryd (ICES, 2006). Gwelwyd gostyngiad tebyg ar hyd arfordir Cefnfor Iwerydd. (Gweler adolygiadau Hunter, 1999).

Mae'r cimwch coch yn rhywogaeth â blaenoriaeth. Yn 2010, argymhellodd y Cyd-gyngor Cadwraeth Natur y dylid ystyried y rhywogaeth ar gyfer Atodlen 5 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, gan olygu y byddai'r cimwch coch yn anifail gwarchodedig at ddiben y Ddeddf (Jones, 2011). Er i'r argymhelliad gael ei wrthod, tanlinella'r angen am fesurau rheoli priodol i sicrhau bod y stoc yn gynaliadwy.

Mae'r rheolau ynghylch maint lleiaf y cranc heglog yn wahanol i bysgotwyr mewn ardaloedd gwahanol yng Nghymru.

Dyma'r darpariaethau perthnasol ar gyfer Crancod Heglog:

- Mae Rheoliad y Cyngor (EC) 850/98 30 Mawrth 1998 ar gyfer gwarchod adnoddau pysgodfeydd trwy fesurau technegol ar gyfer diogelu organeddau morol ifanc, yn pennu maint lleiaf o **95mm**;

- Mae Is-ddeddf 19 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr gynt (Maint Lleiaf Pysgod) yn pennu maint lleiaf o **95mm** ar gyfer cimychiaid coch (yn ardal Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr gynt h.y. hyd at 6 milltir forol o'r lan yn yr ardal berthnasol).

- Mae Is-ddeddf 7 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt (Cimychiaid Coch – Maint Lleiaf) yn pennu maint lleiaf o **110mm** (yn ardal Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt h.y. hyd at 6 milltir forol o'r lan yn yr ardal berthnasol);

Rydym yn cynnig gwahardd pysgota am gimychiaid coch sy'n llai na **110mm (o'u mesur ar hyd llinell ganol y gragen)** a gwahardd hefyd eu glanio, eu gwerthu a'u dinoethi; gwaherddir hefyd eu cynnig i'w gwerthu a bod â chimwch coch o'r fath yn eich meddiant, a hynny ar hyd arfordir Cymru hyd at 12 milltir forol o'r lan.

Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd bod â chimwch coch sy'n llai na **110mm** yn eich meddiant ym Môr Tiriogaethol Cymru, pa le bynnag y cafodd ei ddal.

Bydd cynyddu'r maint lleiaf yn rhoi amddiffyniad pellach i gimychiaid coch ac yn chwalu unrhyw amheuon ynghylch maint y cimychiaid coch y cewch eu dal yn nyfroedd Cymru gan wneud y stoc leol yn fwy cynaliadwy a hyfyw at y dyfodol.

**5. Cranc Llygatgoch** *(Necora puber)*

Mae'r cranc llygatgoch (*Necora puber)* i'w weld ym mhob rhan o ogledd-ddwyrain Cefnfor Iwerydd a Môr y Gogledd, o Norwy i arfordir gogledd-orllewin Affrica a rhannau o Fôr y Canoldir. Mae i'w weld fel arfer ar wely môr caled lle gall guddio mewn riffiau creigiog ac o dan feini. Nid yw crancod llygatgoch yn bwydo yn union cyn ac ar ôl bwrw cragen, fwy na thebyg am eu bod mor agored i niwed bryd hynny. Mae'r crancod yn paru pan fydd cragen y benyw'n feddal ar ôl bwrw cragen. Mae'n silio sawl mis yn ddiweddarach ac mae'r grances yn cario'r wyau o dan ei bol am ryw 9 mis. Mae astudiaethau'n awgrymu bod crancesi'n byw ar hyd y glannau yn yr haf ond yn mudo i ddŵr dyfnach ar gyfer y gaeaf. Nid oes arwydd bod y gwrywod yn mudo o'r glannau. Mae crancod llygatgoch yn cael eu dal yn aml fel sgil-ddalfa mewn cewyll. (Woolmer *et al.* 2013).

Mae dwy lefel o ddeddfwriaeth yn effeithio ar Grancod Llygatgoch yng Nghymru:

- Mae Gorchymyn Crancod Llygatgoch Rhy Fach 1989 (O.S. 1989/919) yn gwahardd glanio Crancod Llygatgoch ym Mhrydain Fawr sy'n llai na 65mm. Mae hefyd yn gwahardd gwerthu, dinoethi neu gynnig i'w gwerthu Grancod Llygatgoch sy'n llai na **65mm** na bod â Chranc Llygatgoch o'r fath yn eich meddiant ar gyfer ei werthu. Ceir esemptiad yng Ngorchymyn 1989 ar gyfer Crancod Llygatgoch sy'n cael eu glanio gan gychod pysgota tramor. Hefyd, mae'r Gorchymyn yn gwahardd cludo Crancod Llygatgoch sy'n llai na 65mm ar gychod pysgota Prydeinig;

- Mae Is-ddeddf 19 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr gynt (Maint Lleiaf Pysgod) yn pennu maint lleiaf o **65mm** ar gyfer Crancod Llygatgoch (yn ardal Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr gynt h.y. hyd at 6 milltir forol o'r lan yn yr ardal berthnasol).

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cael gwared ar y dyblygu a geir yn y ddeddfwriaeth berthnasol ond heb newid y maint lleiaf ar gyfer y Cranc Llygatgoch.

Rydym yn cynnig cadw'r maint lleiaf o **65mm** ar gyfer Crancod Llygatgoch.

Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd bod â chranc llygatgoch sy'n llai na **65mm**, pa le bynnag y cafodd ei ddal.

**6. Tynnu Rhannau Cramenogion**

Un o’r rheoliadau pwysicaf ar gyfer gwarchod cramenogion a sicrhau pysgodfa gynaliadwy yw’r gofynion ynghylch maint lleiaf. Mae’r mesur a ddefnyddir i bennu maint y cramenogyn perthnasol yn seiliedig ar hyd y gragen gyfan. Mae’n dilyn felly, er mwyn gallu gorfodi’r rheoliadau, bod angen sicrhau bod y gragen gyfan ar gael ar gyfer ei mesur.

Pe bai rhannau o’r anifail cael eu tynnu (e.e. crafangau neu gynffon), ni fyddai modd ei fesur a gallai hynny fynd yn groes i’r rheoliad hwn. Pwrpas gwahardd tynnu rhannau cramenogyn yw rhwystro pysgotwyr rhag dal cramenogion rhy fach a thaflu rhan o’r anifail fyddai’n caniatáu i swyddog gorfodi ei fesur.

Pan ddelir crancod fel sgil-ddalfa mewn offer sefydlog (fel rhwydi drysu), mae’n anodd eu rhyddhau’n gyfan, ac o’r herwydd, yn aml, rhaid torri’u crafangau. Mae’r crancod di-grafanc yn cael eu taflu yn ôl i’r môr a dim ond y crafangau a gedwir ar y cwch. Mewn rhai ardaloedd, defnyddir morthwylion gan rwydwyr i falu’r crancod o’r rhwydi, gan eu lladd a’u gwneud yn haws eu datgysylltu o’r rhwyd.

Dyma’r darpariaethau perthnasol sy’n ymwneud â glanio rhannau cramenogion yng Nghymru:

- Mae Erthygl 18 Rheoliad y Cyngor (EC) 850/98 30 Mawrth 1998 ar gyfer gwarchod adnoddau pysgodfeydd trwy fesurau technegol ar gyfer diogelu organeddau morol ifanc, yn darparu fel a ganlyn:
    - Paragraff 3 – yn achos cimychiaid, cimychiaid coch a molysgiaid dwygragennog a boldroediog sy’n perthyn i unrhyw rywogaeth y pennir maint lleiaf ar ei gyfer yn Atodiad XII y Rheoliad hwnnw, caniateir cadw ar y cwch a glanio anifeiliaid cyfan yn unig.

    - Paragraff 4(a) – ar gyfer crancod coch a ddelir mewn cewyll, caiff hyd at 1% o bwysau’r ddalfa gyfan o grancod coch neu eu rhannau a gedwir ar y cwch neu eu glanio fod yn grafangau crancod wedi’u datgysylltu; a
    - Paragraff 4(b) – ar gyfer crancod coch a ddelir mewn offer pysgota heblaw cewyll, caniateir cadw ar y cwch neu eu glanio hyd at 75% o’r crafangau crancod sydd wedi’u datgysylltu.

- Mae is-ddeddf 46 Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt (Rhannau Cramenogion) yn gwahardd mynd â chynffonau, crafangau neu unrhyw ran ddatgysylltiedig arall Cimychiaid (*Homarus gammarus),* Crancod Coch *(Cancer pagurus),* Crancod Heglog *(Maia squinado),* Cimychiaid Coch (Palinurus elephas), Crancod Llygatgoch (*(Necora puber)* a Chrancod Glas (*Carcinus maenas)* o ardal y Pwyllgor Pysgodfeydd hwnnw.

Rydym yn cynnig ymestyn y gwaharddiad ar gadw rhannau Crancod Coch, Crancod Heglog, Crancod Llygatgoch a Chrancod Glas i bob rhan o arfordir Cymru, hyd at 12 milltir forol o’r lan.

Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o’r DU fel ei bod yn drosedd cludo rhannau unrhyw rai o’r cramenogion a enwir uchod ym Môr Tiriogaethol Cymru, pa le bynnag y cawsant eu dal.

## Rhan II – Mesurau eraill rydym yn eu hystyried

Fel y dywedwyd ynghynt, dim ond rhan gyntaf adolygiad llawnach o'r ffordd rydym yn rheoli ein pysgodfa gramenogion yng Nghymru yw'r cynigion hyn yn yr Ymgynghoriad hwn. Er eich gwybodaeth, rydym yn rhestru isod fanylion y pynciau eraill rydym yn eu hystyried. Mae croeso i chi gynnig sylwadau ar y cynigion hyn. Os caiff unrhyw rai o'r cynigion hyn eu datblygu i'r graddau y gallai Llywodraeth Cymru ystyried eu mabwysiadu ac os bydd y newidiadau'n golygu newid o sylwedd i bolisi Llywodraeth Cymru, cynhelir ymgynghoriad (neu ymgyngoriadau) ffurfiol.

**Tyllau Dianc mewn Cewyll Cimychiaid/Crancod**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gosod "tyllau dianc" ar gewyll cimychiaid/crancod yn esgor ar fanteision pendant iawn o safbwynt cadwraeth a chynaliadwyedd. Dyfais syml yw'r twll dianc sy'n caniatáu i anifail rhy fach neu ifanc ddianc o gawell cyn ei chodi i'r cwch. Dyfais blastig yw hi sy'n cael ei gwnïo wrth ochr y gawell gydag agoriad ynddi i'r anifail fynd i mewn ac allan trwyddo. Dylid rhoi dau dwll dianc wrth gewyll parlwr, un ym mhob siambr. Bydd y twll dianc yn rhy fach i anifeiliaid mwy allu dianc trwyddo.

Byddai defnyddio dyfais o'r fath yn golygu llai o waith didoli i'r pysgotwr a llai o stres ar anifeiliaid sy'n rhy fach (gyda stoc iachach yn ganlyniad posibl i hynny). Byddai hefyd yn arbed amser wrth wacáu cewyll ac ail-osod abwyd.

Hefyd, fel y dywedwyd, mae tuedd gan gimychiaid i fwyta ei gilydd a byddai system o'r fath felly'n debygol o leihau'r cyfleoedd iddynt anafu'i gilydd. Mae cimychiaid yn anifeiliaid tiriogaethol iawn ac mae'n beth cyffredin i gimychiaid sydd wedi'u dal yn yr un gawell ymladd â'i gilydd ac anafu'i gilydd gan gynnwys torri coesau'i gilydd. Mae hynny'n effeithio ar werth y cimwch yn y farchnad. Mae dychwelyd cimychiaid ifanc sydd wedi'u hanafu i'r bysgodfa hefyd yn creu problemau gan nad ydyn nhw'n cael eu dychwelyd i'r lle y cawsant eu dal a'u bod felly'n colli'u tiriogaeth. Mae'r cimychiaid hyn yn fwy tebygol o gael eu dal a'u bwyta gan anifeiliaid eraill. Yn ogystal, mae cimychiaid sydd wedi'u hanafu neu sydd wedi colli coes yn fwy tebygol o ddal clefyd gan arwain at stoc afiach.

Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi bod y Cranc Llygatgoch yn sgil-ddalfa bwysig o'r diwydiant cewyll ac y gallai tyllau dianc roi'r modd iddyn nhw ddianc. Mae Llywodraeth Cymru felly wedi cytuno i gynnal ymchwil benodol gydag Ysgol Eigioneg Bangor i ddarparu gwybodaeth ynghylch y dyluniad a'r lleoliad gorau ar gyfer y tyllau hyn fel eu bod yn gwireddu'r amcanion ond gan gadw Crancod Llygatgoch. Disgwylir canlyniadau'r ymchwil ym mis Ebrill 2014. Bydd yr ymchwil yn dangos manteision y "Twll Dianc" fel dyfais bysgota gyfrifol a chynaliadwy. Byddwn yn defnyddio'r data i baratoi manylion cynigion yn y dyfodol (gweler adolygiadau Brown, 1979, Brown 1982, CEFAS, 2005, CEFAS, 2006, Clark, 2010, Fogarty *et al.,* 1980, Murray *et al.,* (2009).

**Pysgota Ysbrydion**

Os collir cawell cyn ei chodi i'r cwch, mae perygl y bydd ynddi bysgod a chramenogion. Ni fydd y rheini'n gallu dianc a byddant yn marw yn y gawell. Bydd yr anifeiliaid hynny wedyn yn abwyd sy'n denu pysgod a chramenogion eraill i'r gawell lle byddant hwythau hefyd yn marw. Bydd y cylch yn parhau. Enw cyffredin ar y broses yw 'ghost fishing' neu 'bysgota ysbrydion'.

Gellid lleihau'r broblem trwy gynnwys elfen bydradwy i'r gawell, fel bachyn y drws yn y panel ochrol neu drwy ddefnyddio llinyn pydradwy i wnïo'r panel. Felly, os collir y gawell, bydd y bachyn neu'r llinyn yn pydru a bydd y panel yn disgyn gan adael i'r anifeiliaid ddianc.

Byddai hynny'n arwain at fantais cadwraethol pendant. Mae Llywodraeth Cymru gyda chymorth Ysgol Eigioneg Bangor yn mesur maint y broblem yng Nghymru. Byddwn yn defnyddio'r data i weld a oes angen camau penodol. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru'n annog y diwydiant i ddefnyddio mesurau gwirfoddol yn hyn o beth i leihau'r enghreifftiau o Bysgota Ysbrydion.

### Maint Glanio Mwyaf Cimychiaid

Amcan y maint glanio mwyaf ar gyfer cimychiaid yw gwarchod unigolion mawr fel eu bod yn cael aros yn y bysgodfa fel stoc bridio. Mae'r gyfradd farwolaethau ymhlith cimychiaid mawr yn naturiol isel ac mae potensial cimychesau mawr i fagu yn fwy, felly bydd gadael i gimychiaid dyfu'n fawr yn debygol o wneud y stoc yn fwy cynhyrchiol. Mae cimychesau mawr yn tueddu i ddewis y gwrywod cryfaf mawr i baru â nhw. Gallai pennu 'maint glanio mwyaf' ar gyfer cimychiaid gwryw a benyw felly gynyddu llwyddiant magu'r rhywogaeth (Woolmer *et al.,* 2013).

Mae'r diwydiant yn aml yn dychwelyd cimychiaid mawr i'r bysgodfa gan eu bod yn werth llai'n fasnachol na chimychiaid llai.

Llywodraeth yr Alban yw'r unig weinyddiaeth yn y DU sy'n defnyddio maint glanio mwyaf ar gyfer cimychiaid. (Woolmer *et al.,* 2013).

Bydd Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a'r gwaith sy'n gysylltiedig â hi yn cynyddu'r data sydd ar gael ac yn caniatáu i wyddonwyr gynnal astudiaethau i weld pa fanteision ddaw o gyfyngiad ar faint y cimychesau y caniateir eu glanio yng Nghymru.

### Deifio a Rhwydo am Gimychiaid Coch

Yr unig asesiad a mesurau rheoli ffurfiol ar bysgodfa cimychiaid coch y DU yw cyfyngiad maint lleiaf yr UE (a drafodir uchod), felly ychydig iawn o ddata sydd gennym. Fodd bynnag, gwelwyd dirywiad difrifol yma maint stoc cimychiaid coch y DU yn y 1970au. Yr un pryd gwelwyd cynnydd aruthrol yn y niferoedd oedd yn cael eu dal trwy ddeifio a rhwydo yn lle defnyddio cewyll. (Goni *et al.,* 2005

Gwelwyd mai prif achos y dirywiad yn y stoc cimychiaid coch yn y DU oedd sgwba-ddeifio. Gan i rai cwmnïau deifio lleol dargedu'r anifail gymaint, buan y gwelwyd nad oedd dal cimychiaid coch mewn cewyll yn dod â budd economaidd (gweler adolygiad Lock, 2010).

Hefyd, mae cimychiaid coch yn mudo fel arfer mewn grwpiau ac mae llawer yn cael eu dal trwy ddamwain mewn rhwydi (gweler adolygiad Lock, 2010).

Fodd bynnag, ac er yr uchod, mae'r farchnad yn cynnig prisiau uchel am y rhywogaeth hon sy'n golygu bod bywyd economaidd lewyrchus i'r bysgodfa er mai dim ond ychydig a ddelir. O ganlyniad, mae perygl mawr gorbysgota'r bysgodfa cimychiaid coch.

Gan fod deifio a rhwydo yn gallu lleihau poblogaethau'n rhwydd iawn, mae Llywodraeth Cymru am ymchwilio i weld a yw'r dulliau pysgota hyn yn gynaliadwy, gyda golwg ar wahardd (neu gyfyngu) defnyddio'r dulliau hyn o bysgota cimychiaid coch.

### Cewyll anfasnachol

Er eich gwybodaeth, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno cynigion ar wahân ar gyfer pysgota hamdden â chewyll. Bydd y cynigion hyn yn disodli, er enghraifft, Is-ddeddf 30 (Pysgota am gimychiaid, cimychiaid coch, crancod, corgimychiaid a chregyn y moch) Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr gynt. Dylid nodi bod y meintiau lleiaf y cyfeirir atynt yn Rhan 1 y ddogfen hon yn gymwys i bysgotwyr hamdden anfasnachol yn ogystal â physgotwyr masnachol.

Gallai'r cynigion hyn ystyried a oes angen cynllun trwyddedu (cyfyngol) ar gyfer pysgotwyr hamdden a gallai hefyd gynnwys cynigion ar gyfyngu ar faint y daliad dyddiol a ganiateir ar gyfer rhai rhywogaethau fel cimychiaid, crancod a chimychiaid coch.

### Cynllun trwyddedu i bysgotwyr masnachol

Mae Llywodraeth Cymru'n rhannu pryderon ynghylch gweithgarwch presennol cychod sydd eisoes yn pysgota am gramenogion a'u potensial i gynyddu'u gweithgarwch. Yn y dyfodol, gallai fod yn bosibl ystyried rhyw fath o gynllun trwyddedu cyfyngol mewn ymgynghoriad yn y dyfodol a allai, efallai, gynnwys cyfyngu ar weithgarwch.

### Maint Lleiaf Crancod Glas (*Carcinus maenas*)

Yr unig gyfeiriad at Grancod Glas yn Rhan 1 yr ymgynghoriad hwn yw Tynnu Rhannau Cramenogion. Carai Llywodraeth Cymru ofyn eich barn ynghylch pennu maint lleiaf ar gyfer crancod glas er mwyn gwarchod y rhywogaeth ac i wneud y stoc leol yn fwy cynaliadwy a hyfyw at y dyfodol

**Ymgynghoriad ar y Bysgodfa Cramenogion – Crynodeb o'r Cynigion**

## Cimychiaid

Rydym yn cynnig gwahardd pysgota am gimychiaid sy'n llai na **90mm (hyd y gragen)** a gwahardd hefyd eu glanio, eu gwerthu a'u dinoethi; gwaherddir hefyd eu cynnig i'w gwerthu a bod â chimwch o'r fath yn eich meddiant, hynny ar hyd arfordir Cymru hyd at 12 milltir forol o'r lan. Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd bod â chimwch sy'n llai na **90mm** yn eich meddiant ym Môr Tiriogaethol Cymru, pa le bynnag y cafodd ei ddal.

Rydym yn cynnig gwahardd pysgota am **gimychiaid wyog, wedi'u sgwrio, â hollt V neu wedi'u llurgunio** a gwahardd hefyd eu glanio, eu gwerthu a'u dinoethi; gwaherddir hefyd eu cynnig i'w gwerthu a bod â chimwch o'r fath yn eich meddiant, hynny ar hyd arfordir Cymru hyd at 12 milltir forol o'r lan. Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd bod â gimychiaid wyog, wedi'u sgwrio, â hollt V neu wedi'u llurgunio yn eich meddiant ym Môr Tiriogaethol Cymru, pa le bynnag y cawsant eu dal.

## Cranc Coch

Rydym yn cynnig gwahardd pysgota am grancod coch sy'n llai na **140mm (o'u mesur ar draws rhan letaf y gragen)** a gwahardd hefyd eu glanio, eu gwerthu a'u dinoethi; gwaherddir hefyd eu cynnig i'w gwerthu a bod â chranc coch o'r fath yn eich meddiant, a hynny ar hyd arfordir Cymru hyd at 12 milltir forol o'r lan. Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd bod â chranc coch sy'n llai na **140mm** yn eich meddiant ym Môr Tiriogaethol Cymru, pa le bynnag y cafodd ei ddal.

## Cranc Heglog

Rydym yn cynnig gwahardd pysgota am grancod heglog sy'n llai na **130mm (o'u mesur ar draws rhan letaf y gragen)** a gwahardd hefyd eu glanio, eu gwerthu a'u dinoethi; gwaherddir hefyd eu cynnig i'w gwerthu a bod â chranc heglog o'r fath yn eich meddiant, a hynny ar hyd arfordir Cymru hyd at 12 milltir forol o'r lan. Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd bod â chranc heglog sy'n llai na **130mm** yn eich meddiant ym Môr Tiriogaethol Cymru, pa le bynnag y cafodd ei ddal.

## Cimwch Coch

Rydym yn cynnig gwahardd pysgota am gimychiaid coch sy'n llai na **110mm (hyd y gragen)** a gwahardd hefyd eu glanio, eu gwerthu a'u dinoethi; gwaherddir hefyd eu cynnig i'w gwerthu a bod â chimwch coch o'r fath yn eich meddiant, a hynny ar hyd arfordir Cymru hyd at 12 milltir forol o'r lan. Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd bod â chimwch coch sy'n llai na **110mm** yn eich meddiant ym Môr Tiriogaethol Cymru, pa le bynnag y cafodd ei ddal.

## Cranc Llygatgoch

Rydym yn cynnig cadw'r maint lleiaf o **65mm** ar gyfer Crancod Llygatgoch ond gan weithredu'r rheol maint lleiaf. Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd bod â Chranc Llygatgoch sy'n llai na **65mm** yn eich meddiant, pa le bynnag y cafodd ei ddal.

## Tynnu Rhannau Cramenogion

Rydym yn cynnig ymestyn y gwaharddiad ar gadw rhannau Crancod Coch, Crancod Heglog, Crancod Llygatgoch a Chrancod Glas i bob rhan o arfordir Cymru, hyd at 12 milltir forol o'r lan. Rydym yn cynnig trosedd cludo hefyd ar unrhyw gwch pysgota o'r DU fel ei bod yn drosedd cludo rhannau unrhyw rai o'r cramenogion a enwir uchod ym Môr Tiriogaethol Cymru, pa le bynnag y cawsant eu dal.

**Atodiad 1 – Rhestr Gyfeiriadau**

Cafodd yr adroddiadau a'r papurau hyn eu hystyried wrth baratoi'r cynigion hyn:

Brown, C.G. (1979) Trials with escape gaps in lobster and crab pots. Fish Notice, MAFF Direct Fish. Res., Lowestoft, 62, t9

Brown, C.G. (1982) The effect of escape gaps on trap selectivity in the United Kingdom crab (*Cancer pagurus* (L.)) and lobster (Homarus gammarus (L.)) fisheries. J. Cons. Int. Explor. Mer. 40:127-134.

Centre for Environment, Fisheries and Aquaculture Science (CEFAS) (2005) Stock conservation benefits of various lobster management measures

Centre for Environment, Fisheries and Aquaculture Science (CEFAS) Addison, J, Idoine, J, Smith, M, Tully, O (2006) Evaluation of potential management measures for lobster

Clark, R (2010) Lobster escape gaps in Selsey, Sussex Sea Fisheries District Committee

CSFC (2008) A short investigation into size frequency distribution of spider crab (*Maia squinado)* within the Cornwall Sea Fisheries Committee District.

Fogarty, M.J and Borden, V.D (1980) Effects of trap venting on gear selectivity in the inshore Rhode Island American Lobster (*Homarus americanus*), fishery. Fishery Bulletin: vol. 77. No. 4

Goni, R and Latrouite, D (2005) Review of the biology, ecology, and fisheries of Palinurus spp. In European waters. Cah Biol. Mar (2005) 46:127-142

Gonzalez-Gurriaran, J,  Freire, J,  Parapar, J,  Sampedro, MP, Urcera, M. (1995) Growth at moult and moulting seasonality of the spider crab (Maia squinado) in experimental conditions: implications for juvenile life history.  Journal of Experimental Marine Biology and Ecology189 (1995) 183-203

Hunter, E (1999) Biology of the European Spiny Lobster (*Palinurus elephas) Crustaceana 72 (6) pp555-565*

Hunter, E, Shackley, SE, and Bennett DB (1996) recent studies on the crawfish in South Wales and Cornwall. JMBA 76, tt963-983

ICES. (2006) Report of the ICES Advisory Committee on Fishery Management, Advisory Committee on the Marine Environment and Advisory Committee on Ecosystems, 2006. ICES Advice. Lyfrau 1 – 10.5, tt271

Jones, J (2011) Distribution and abundance of *Palinurus elephas* in North Pembrokeshire – Y Gymdeithas Cadwraeth Forol

Lock, K (2010) Seasearch Wales Crawfish (*Palinurus elephas)* historical diver records.

Lovewell, S.R. and Addision, J.T. (1991), Size composition and pot selectivity in the lobster (*Homarus gammarus* (L.)) and crab (*Cancer pagarus* L.) fisheries on the coast of east England.
Ices J.Mar. Sci., 48:79-90

Murray, L.G. Hinz, H. & Kaiser, M.J. (2009). Lobster escape gap trials.
Fisheries & Conservation report No. 9, Prifysgol Bangor. tt.11.

Tully, O (2004)(Editor) The biology and Management of Clawed Lobster in Europe, Chapter 5, Fisheries Resource Series 2 (2004), BIM/Irish Sea Fisheries Board

Woolmer, A, Woo, J, Bayes, J (2013) Review of Evidence for Best Practice in Crustacean Fisheries Management in Wales.

**Atodiad 2 – Rhestr Rhanddeiliaid yr Ymgynghoriad**

Deiliaid trwyddedau pysgotwyr cewyll hamdden yng Nghymru
Grŵp Cynghori Pysgodfeydd Morol Cymru
Grwpiau Pysgodfeydd y Glannau – y Gogledd / y Canolbarth / y De
Perchnogion cychod pysgota cofrestredig yn y DU sydd â thrwydded i bysgota yng Nghymru
Perchnogion unigol cychod pysgota cofrestredig Cymru

Awdurdod Diwydiant Pysgod Môr
Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain Fawr
Cymdeithas Pysgotwyr Cewyll Llŷn
Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
Cymdeithasau Pysgotwyr Bae Ceredigion
Cymunedau Pysgota De a Gorllewin Cymru
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Ffederasiwn Cenedlaethol Cymdeithasau Pysgotwyr
Ffederasiwn Pysgotwyr Môr Cymru
New Under Ten Fishermen’s Association Ltd
North Wales Co-Operative
West Wales Shellfisherman’s Association Ltd
Ystadau’r Goron

Cyfoeth Naturiol Cymru
DARDNI
DEFRA
Devon and Severn IFCA
Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon
Llywodraeth Ynys Manaw
Llywodraeth yr Alban
North Western IFCA